

Crynodeb Ansawdd Aer yng Nghymru

Cadwch Gymru'n Daclus 2017



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

Mae llygredd aer wedi cael cryn sylw yn y wasg eleni gan mai'r DU oedd un o'r pum gwlad i gael dirwy gan yr UE¹ o ganlyniad i ddiffyg gweithredu ar lefelau peryglus llygredd sydd yn beryglus i iechyd y cyhoedd. Er nad yw ansawdd aer gwael yn sicr wedi ei gyfyngu i'r DU, datgelodd adroddiad Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) a gyhoeddwyd yn 2016, fod 92% o boblogaeth y byd yn byw mewn ardaloedd sydd y tu hwnt i derfynau WHO.²

Llygredd aer yw unrhyw allyriadau o ganlyniad i weithgaredd dynol a allai fod yn niweidiol i iechyd dynol neu ansawdd yr amgylchedd, achosi tramgwydd i un o'r synhwyrâu dynol neu eiddo materol neu amharu ar neu ymyrryd ag amwynder neu ddefnydd dilys arall o'r amgylchedd. Yn unol â'r diffiniad hwn, ystyrir bod llygredd aer hefyd yn cynnwys llygredd aer yn ogystal â llygrwyr ffisegol.

Mae llygrwyr sydd yn peri pryder sylweddol o ran iechyd y cyhoedd yn cynnwys mater gronynnol, carbon monocsid, osôn, nitrogen deuocsid a sylffwr deuocsid. Mae llygredd aer awyr agored a mewnlol yn achosi clefydau anadlol a chlefydau eraill, a all fod yn angheuol.³

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, mae angen i ni ystyried nid yn unig ffynonellau'r llygrwyr ond ein hymddygiad a'n ffordd o fyw ni sy'n cyfrannu at y materion hyn. Ein harferion gwaith a chymudo, ein ffynonellau ynni a'r ffordd yr ydym yn codi ymwybyddiaeth o'r bygythiad anweladwy, ond marwol hwn. Er mwyn cyflawni'r newidiadau hyn, rydym yn croesawu cydweithredu ac ymdrechion ar y cyd ar draws pob sector, yn arbennig y rheiny ym maes iechyd. Yn ogystal, rydym yn cydnabod yr angen am fwy o gydnabyddiaeth o werth isadeiledd gwyrdd a'i rôl hanfodol yn ein lles a glendid ein haer.

Mae'r papur hwn yn archwilio prif faterion ansawdd aer, ffynonellau llygredd a Pholisi perthnasol Cymru. Mae'n cynnwys astudiaethau achos o fannau eraill ac argymhellion ar gyfer y ffordd y gallwn gydweithredu yn y dyfodol.

Cyswllt

Jemma Bere – Rheolwr Polisi ac Ymcwhil, Cadwch Gymru'n Daclus

leq@keepwalestidy.cymru

¹ Crisp, J Matthews, J. (16 Chwe 2017). *Five countries face fines after breaking EU pollution laws*. Ar gael: <http://www.euractiv.com/section/climate-environment/news/five-countries-face-fines-after-breaking-eu-pollution-laws/> [10/5/17]

² Sefydliad Iechyd y Byd. (27 Medi 2017). *WHO releases country estimates on air pollution exposure and health impact*. Ar gael: <http://www.who.int/mediacentre/news/releases/2016/air-pollution-estimates/en/> [10/5/17]

³ *Ibid.*



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

© Copyright Keep Wales Tidy 2017 All rights reserved

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13

